

01 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL

THEMÂU ALLWEDDOL – 01 | 03

01. Adeiladu ar Fomentwm Presennol

- Mae Porthcawl eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer newid sylweddol gyda thros fil o gartrefi newydd wedi'u cymeradwyo yn unol â Strategaeth y Glannau 2022, i gyd wedi'u gosod o fewn glan môr trefol ac amgylchedd gwell. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych ar gyfer buddsoddiad a chynnydd economaidd yng nghanol y dref.
- Mae'r orsaf derminws newydd i fysiau fod i'w gwblhau yng Ngwanwyn 2024 ar Ffordd y Porth gan alluogi gwell mynediad ar drafnidiaeth gyhoeddus i ganol y dref ac ardal y glannau yn y dyfodol.
- Mae'r gwelliannau i'r dociau a'r marina wedi'u cwblhau gan greu mwy o ymwelwyr a chyfleusterau hamdden.
- Mae siop Aldi a gwblhawyd yn ddiweddar ar y pen i ardal ddatblygu Salt Lake i'r gogledd.
- Mae gwaith i wella'r arlwy diwylliannol yn sylweddol yn y Pafiliwn, disgwylir ddechrau yn haf 2024
- Mae gwelliannau i adeiladau allweddol yng Ngwesty Porthcawl a banc Barclays yn symud ymlaen ac ar fin cael eu cwblhau dod â chyfleusterau masnachol ac unedau preswyl i'r galon o ganol y dref.



DATBLYGIAD DIWEDDAR A PRESENNOL CANOL Y DREF PORTHCAWL

- Datblygiad diweddar/presennol
- Safle datblygu yn y dyfodol

02. Defnydd Tir a Datblygu

- Atgyfnerthu'r cynnig masnachol a manwerthu cryf presennol o fewn y Brif Ardal Fanwerthu, gan gydnabod y bydd defnyddiau hamdden, caffis a bwytai yn digwydd yn bennaf yn yr ardaloedd datblygu newydd i'r dwyrain, ar hyd glan y môr.
- Datgloir safleoedd datblygu posibl o amgylch Y Sgwâr a thuag at y marina yn The Knight's Arms, cyn-Safle Fflatiau Dunraven a Gwesty Glamorgan i ddarparu mwy o gartrefi a mannau gwaith.
- Ailddatblygu Gorsaf yr Heddlu a safle Fulgoni's (yn ddefnyddol fel un datblygiad integredig), i greu porth newydd i'r gogledd o ganol y dref, oddi ar Gylchfan Portway
- Parhau i hyrwyddo a galluogi gwelliannau i lorïau uchaf adeiladau manwerthu a masnachol presennol i ddarparu cyfleoedd preswyl a mannau gwaith newydd.




DEFNYDD TIR O GWMPAS CANOL Y DREF PORTHCAWL

- Plot Datblygu Posibl
- Prif Ardal Fanwerthu
- Ardal Fanwerthu Eilaidd
- Defnydd Hamdden
- Cyswilt Metro
- Defnydd Dinesig
- Man Agored Cyhoeddus
- Safle datblygu hamdden
- Safle datblygu defnydd cymysg dan arweiniad preswyl
- Parcio ceir
- Cysylltedd/symudiad cerddwyr

03. Cysylltedd a Symudiad

- Hyrwyddo a chanolbwyntio ar rwyddineb symud i gerddwyr a beicwyr ar draws y dref.
- Gwella cysylltedd cerddwyr a beicwyr i'r gorllewin/dwyrain ar draws Ffordd y Porth gan gysylltu canol y dref gyda'r ardaloedd datblygu newydd, y marina a glan y môr.
- Gwella symudiad dwyrain/gorllewin ar hyd Stryd y Doc rhwng canol y dref ac ardaloedd datblygu'r glannau.
- Adleoli ac ailstrwythuro mannau croesi i gerddwyr ar hyd y Rhodfa i wella cysylltiadau o ganol y dref at lan y môr.
- Ystyried yr A4106, Ffordd y Porth a'r Rhodfa nid yn unig yn fodd i gerbydau symud, ond hefyd yn borth i'r dref ac yn seilwaith gwyrdd a choridor teithio llesol.
- Gwella cysylltiadau cerddwyr tua'r gorllewin o John Street i Faes Parcio Stryd John ac ymlaen i Stryd Mair.
- Deddfu yn erbyn parcio afreolus o amgylch y Sgwâr ac ar strydoedd ochr.



Symudiadau Cerbydau



Symudiadau Teithio Llesol

CONNECTIVITY & MOVEMENT AROUND PORTHCAWL TOWN CENTRE


- Plot datblygu posibl
- Croesfan i gerddwyr
- Symudiad cerddwyr
- Prif symudiad cerbydau
- Symudiad cerbydau eilaidd

02 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL

THEMÂU ALLWEDDOL – 04 | 06

04. Parth Cyhoeddus Gwell

- Ystyried cynyddu uchder adeiladau a sicrhau tu blaen gweithredol i ddatblygiadau ar gyffyrdd a phyrth allweddol bob hyn a hyn yn y treflun, i strwythuro'r parth trefol, a chreu a bywiogi mannau cyhoeddus.
- Tacluso, gwella a chydlynu perthnasedd y strydlyn a chelfi stryd.
- Darparu system gyfeirbwyntiau gydlynol
- Datblygu cynllun o welliannau i ddrychiadau eilaidd / ffin cefn sy'n wynebu'r stryd neu fannau cyhoeddus - Y Sgwâr, Maes Parcio Hillsboro Place a Stryd John
- Darparu Codau Dylunio i gydlynu cynllun o welliannau blaen siop ar John Street, gan gynnwys llinellau adeiladu, lliwiau, deunyddiau ac arwyddion.
- Gwella potensial goleuadau i dynnu sylw at adeiladau a gofodau allweddol a darparu lefel gefndir o olau sy'n ddiogel a chroesawgar.



- PUBLIC REALM ACTION AREAS AROUND PORTHCAWL TOWN CENTRE**
- ▨ Gwelliannau parth cyhoeddus
 - ▨ Gwelliannau cysylltedd
 - ▭ Diffinio manau trefol
 - ▨ Safle datblygu posibl
 - ▨ Man agored cyhoeddus

05. Cofleidio Treftadaeth

- Defnyddio'r hanes cyfoethog, y strydlyn a'r adeiladau sy'n bodoli i adrodd stori'r dref, gan hybu balchder a dealltwriaeth.
- Canolbwyntio ar yr Ardal Gadwraeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddi, sicrhau bod datblygiadau adeiledig newydd a mannau cyhoeddus yn sensitif i hanes y dref ac yn cyfeirio ato.
- Atgyfnerthu'r stori ar draws y dref trwy wybodaeth a chyfeirbwyntiau.



Llun uchaf: Parc Beicio Traeth Coney, tua 1935.

Llun isod: Stryd John o'r awyr, tua 1929.



- CANOL Y DREF PORTHCAWL DIAGRAM TREFTADAETH**
- ▨ Adeiladwaith trefol - 1880
 - ▨ Gorsaf drenau - 1916-1963
 - ▨ Adeilad / strwythur rhestredig
 - ▨ Y sgwâr
 - ▨ Maint y dociau
 - ▨ Ardal gadwraeth
 - ↔ Prif symudiad hanesyddol (John Street / Lifeboat Road)
 - ↔ Symudiad hanesyddol eilaidd (Dock Street / Well Street / Y Rhodfa)

06. Cynaliadwyedd

- Adeiladu seilwaith glas a gwyrdd ym mhob datblygiad newydd a gwaith priffyrdd, gan anelu at arafu dŵr ffo a gwneud y dref yn wyrdd.
- Aildefnyddio adeiladau a strwythurau presennol cymaint â phosibl, er mwyn cadw'r carbon sydd wedi'i storio.
- Sefydlu a gwreiddio Cod Dylunio yn ystod camau cynnar datblygu plotiau'r uwchgynllun, er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision dull cyfannol ardal gyfan at gynaliadwyedd a lleihau olion traed carbon.
- Hyrwyddo a galluogi symudiad moddol oddi wrth y car tuag at Deithio Llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

ARDALOEDD CANOL TREF PORTHCAWL AR GYFER GWYRDDNI NEWYDD

- ▨ Parc / Man Agored Cyhoeddus
- Coeden newydd posibl
- ▨ Coridor gwyrdd posibl



LLUN RHAGESIAMPL: TO GWYRDD BIOAMRYW




LLUN RHAGESIAMPL: PLANHIGYN DRINGO / WALYDD GWYRDD BYW



LLUN RHAGESIAMPL: PLANNU SUDS / GERDDI GLAW

03 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL ARDALOEDD GWEITHREDU ALLWEDDOL



01. Porth y Gogledd

Pwynt mynediad i'r dref wedi'i adfywio, naill ai o'r gogledd a'r M4 ar hyd ffordd unffrwd A4106, gyda llwybrau beicio a throed newydd, plannu coed ar y rhodfeydd a phlannu SDCau neu o'r dwyrain a New Road, gan groesi'r A4106 yn uniongyrchol ac ar lefel y ffordd. Bydd datblygiad newydd o amgylch y gylchfan yn amlygu'r mynediad i'r dref yn fawr a bydd gwelliannau i'r parth cyhoeddus ar gyffordd John Street a Lias Road, yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o fynediad.

02. Craidd Canol y Dref

John Street yw stryd fawr fywiog y dref a bydd y flaenoriaeth bresennol i gerddwyr yn cael ei chadw drwy ddiweddarau'r goleuadau a chelfi stryd, a dylunio'r stryd fel y llwybr hanesyddol i'r dref ac i'r dociau. Gellir defnyddio Codau Dylunio i sicrhau cysondeb wrth drin tu blaen siopau, gyda phlanhigion a waliau gwyrdd wedi'u gosod ar waliau gwag a choed yn cael eu plannu pan fo gofod (a gwasanaethau) yn caniatáu hynny. Bydd y cysylltiadau prysur rhwng John Street a Mary Street drwy faes parcio John Street yn cael eu gwella a'u tirlunio, a bydd y manau trefol ar y naill ben a'r llall i'r stryd fawr yn cael eu diffinio a'u cyflwyno'n well.

03. Y Sgwâr

Bydd cymeriad unigryw a strydlun tynn y Sgwâr yn cael eu gwella a'u cynyddu trwy gael gwared ar barcio afreolus. Bydd nifer o safleoedd sy'n cynnig cyfle o amgylch y Sgwâr (a'r Trwyn) yn cael eu datblygu ar gyfer diben preswyl yn bennaf, gyda man gwaith hyblyg ar y llawr gwaelod. Bydd man agored canolog y Sgwâr yn cael ei ddiffinio trwy ddeunyddiau a phlannu coed gofalus, a bydd hygyrchedd yr ardal yn cael ei wella gyda chysylltiadau â'r marina, y Rhodfa a pharc newydd ar Dde Hillsboro.


04. Hillsboro

Mae dwy ardal Hillsboro i'r gogledd ac i'r de o Dock Street yn rhan annatod o Strategaeth y Glannau. Mae ardal Gogledd Hillsboro wedi'i chlustnodi ar gyfer maes parcio aml-lawr a De Hillsboro ar gyfer parc bach. Trwy gyfyngu ar fynediad i gerbydau, mae Dock Street ei hun yn dod yn llwybr teithio llesol allweddol rhwng canol y dref a'r glannau newydd. Mae polisi o welliannau i gefnau siopau ar Hillsboro Place yn gwella'r amgylchedd preswyl hwn yn fawr.

05. Y Rhodfa

Bydd mynediad i'r ardal hollbwysig hon, lle mae canol y dref yn cwrdd â'r môr, yn cael ei gwella trwy adleoli a gwella croesfannau a byrddau. Bydd plannu coed o rywogaethau pinwydd addas yn darparu lefel o gysgod ac yn tynnu sylw at fwa'r bae, gyda'r nod hirdymor o ddiweddarau tirwedd y promenâd.


04 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL YMYRIADAU ALLWEDDOL - TROSOLWG



Ymyriadau Allweddol - Trosolwg


Mae'r cynllun uchod yn dangos yr ymyriadau posibl a fydd yn hybu'r dyheadau o fewn pob maes allweddol i gyrraedd y nod o ganol tref iach a deniadol; sy'n ategu at yr ardaloedd datblygu mawr ar y glannau i'r dwyrain, ond sydd eto'n wahanol iddynt.

Archwilir yr ymyriadau allweddol hyn yn fanylach ar y byrddau canlynol.




05 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL YMYRIADAU ALLWEDDOL – 01 AC 02

01. A4106 a Chylchfan Ffordd y Porth



BRASLUN O GYLCHFAN PORTWAY O Ffordd UNFFRWD GERBYDAU A4106


- Ffordd unffrwd A4106, gan greu gofod ar gyfer llwybrau Teithio Llesol a phlannu ar rodfeydd.
- Cylchfan wedi'i hail-dirlunio fel porth i'r dref, yn caniatáu golygfeydd draw i ddatblygiad ar Salt Lake a Ffordd y Porth
- Datblygiad newydd yn fframio'r gylchfan ac yn strwythuro'r porth
- Croesfan lefel wyneb uniongyrchol o'r A4106 o Heol Newydd i Stryd John



RHAN DRWY Ffordd UNFFRWD YR A4106 GYDA LLWYBRAU TEITHIO LLESOL A PHLANNU RHODFEYDD



LLUN RHAGESIAMPL: PLANNU COED RHODFA



LLUN RHAGESIAMPL: PLANNU SUDS A CHERDDI GLAW




LLUN RHAGESIAMPL: PLANNU SUDS A CHERDDI GLAW



LLUN RHAGESIAMPL: PLANNU SUDS A CHERDDI GLAW

02. Gorsaf Heddlu a Fulgoni's




LLUN RHAGESIAMPL: MANNAU CYHOEDDUS HYGGRCH O ANSAWDD UCHEL, WEDI'U DIFFINIO'N DDA



LLUN RHAGESIAMPL: DATBLYGIAD PRESWYL DEFNYDD CYMYSG

- Safle datblygu allweddol ym mynedfa ogleddol y dref, sy'n gallu cynnal lefel o raddfa a phresenoldeb. Mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer mwy o ofod manwerthu ar lawr gwaelod gorsaf yr heddlu a phreswyl.
- Man cyhoeddus hygrych wedi'i ddiffinio'n well ar groesffordd Lias Road a John Street a'r cwrt blaen i'r eglwys



LLUN RHAGESIAMPL: PARTH CYHOEDDUS O ANSAWDD UCHEL, DODREFN STRYD A GOLEUADAU




LLUN RHAGESIAMPL: DATBLYGIAD PRESWYL DEFNYDD CYMYSG GYDA MANWERTHU MAWR AR Y LLAWR GWAELOD

06 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL

YMYRIADAU ALLWEDDOL – 03 AC 04

03. Stryd y Doc a Hillsboro



BRASLUN O STRYD Y DOC YN EDRYCH TUAG AT ARDAL Y GLANNAU

- Mae Gogledd Hillsboro wedi'i nodi yn Strategaeth y Glanau fel safle ar gyfer maes parcio aml-lawr, gyda datblygiad masnachol i'r gogledd a'r de ohono.
- Byddai'r maes parcio'n arwain yr ymwelydd yn uniongyrchol at Dock Street sydd i gerddwyr, sy'n dod yn llwybr cyswllt allweddol rhwng canol y dref a'r glanau.
- Mae De Hillsboro wedi'i glustnodi ar gyfer parc bach hyblyg, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer marchnadoedd awyr agored, consesiynau a digwyddiadau a pherfformiadau cyhoeddus bach. Mae hefyd yn nod ar gyfer symudiad cerddwyr rhwng y Sgwâr, Dock Street, y glanau a'r marina.




LLUN RHAGESIAMPL: PARTH CYHOEDDUS O ANSAWDD UCHEL, DODREFN STRYD A GOLEUADAU



LLUN RHAGESIAMPL: PARC POCED

04. Knights Arms a'r Sgwâr




LLUN RHAGESIAMPL: GOLEUADAU STRYD CROG O ANSAWDD UCHEL



LLUN RHAGESIAMPL: CANFOD Y FFORDD A GWYBODAETH AM DREFTAETH

- Yn rhan hanesyddol o'r dref, bydd y Sgwâr yn cael ei diffinio a'i thirlunio'n well gyda pharcio rheoledig i drigolion.
- Bydd tafarn y Knight's Arms yn cael ei haildatblygu ar gyfer diben preswyl gyda manau gwaith ar y llawr gwaelod.
- Byddai'r strydoedd sy'n cysylltu gyda'r Sgwâr yn cael eu tacluso a bydd rhaglen o welliannau i gefn adeiladau'n cael ei mabwysiadu.
- Bydd yr adeilad B&M amlwg yn cael ei wella, ei adnewyddu neu ei ailddatblygu i wella'r trawsnewidiad o Stryd John i'r Sgwâr a gwella ei bresenoldeb ar Stryd John.
- Bydd cyfeirbwyntiau a goleuadau yn atgyfnerthu'r Sgwâr fel terfyniad y llwybr hanesyddol i'r dref ar hyd John Street.




LLUN RHAGESIAMPL: LLWYBRAU TREFTAETH WEDI'U HINTEGREIDDIO I FANNAU CYHOEDDUS



LLUN RHAGESIAMPL: LLWYBRAU TREFTAETH WEDI'U HINTEGREIDDIO I FANNAU CYHOEDDUS

07 STRATEGAETH CREU LLEOEDD CANOL TREF PORTHCAWL YMYRIADAU ALLWEDDOL - 05 & 06


05. Gwesty'r Morgannwg, Dunraven a'r Pier



- Mae'r tri chyfle aiddatblygu/adnewyddu yn eistedd ar 'drwyn' y dref ar godiad diffiniedig yn edrych dros y marina a'r harbwr. Mae angen dull integredig ar gyfer y tri safle..
- Mae'r dopograffeg a'r amlygrwydd yn rhoi cyfle datblygu o raddfa fawr gyda golygfeydd dros y rhodfa, yr harbwr a'r bae
- Byddai mynediad newydd a gwell i'r harbwr, y rhodfa a De Hillsboro o'r Sgwâr yn sbardun allweddol i aiddatblygu'r pentir.
- Mae caniatâd cynllunio yn ei le i ddymchwel cyn Westy Gwyliau Morgannwg a chodi bloc preswyl newydd o 52 x 1, 2 a 3 ystafell wely a gwaith cysylltiedig (Cyf.: P/20/415/FUL)



LLUN RHAGESIAMPL: DATBLYGIAD AR Y GLANNAU



LLUN RHAGESIAMPL: PARTH CYHOEDDUS O ANSAWDD UCHEL,




LLUN RHAGESIAMPL: CELFI STRYD



LLUN RHAGESIAMPL: DATBLYGIAD AR Y GLANNAU

06. Maes Parcio Stryd John



- Cysylltiadau Pedestraidd
- Ffin cefn yr eiddo i'w wella
- Wal bosibl ar gyfer plannu dringo/wal werdd fyw

- Bydd ansawdd gweledol ac amgylcheddol gwael y maes parcio yn cael ei wella, gan ganolbwyntio ar y cysylltiadau i gerddwyr rhwng John Street a Mary Street.
- Bydd cefnau eiddo sy'n wynebu'r maes parcio yn cael eu gwella gyda chysondeb o ran deunyddiau a manylion.
- Bydd goleuadau a chyfeirbwyntiau newydd yn cael eu gosod.
- Bydd coed, plannu SuDS a phlanhigion dringo i'r waliau yn cael eu cynnwys.



BRASLUN O GYSYLLTIAD CERDDWYR MAES PARCIO STRYD JOHN WEDI'I WELLA





LLUN RHAGESIAMPL: PLANNU SUDS WEDI'I INTEGREIDDIO I'R PARTH CYHOEDDUS



LLUN RHAGESIAMPL: LLWYBR PEDESTRAIDD WEDI'I FEDDALU GYDA PHLANNU DRINGO

07. Pafiliwn Porthcawl



- Mae Pafiliwn y Grand, Porthcawl, yw un o'r adeiladau cydnabyddus yn Nhe Cymru. Fel adeilad rhestredig Gradd II, mae'n ymgorffori treftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol wych Porthcawl a'r rhanbarth ehangach. Bydd ailddatblygu Pafiliwn y Grand yn mynd i'r afael â pheryglon presennol i ffabrig yr adeilad; bydd hefyd yn diwallu anghenion a dyheadau pobl leol trwy gynyddu ei rôl fel angor o fewn y gymuned ac fel lleoliad i dwristiaid.
- Bydd y cyfleusterau newydd yn cynnwys :
 - Man swyddogaeth at lefel llawr cyntaf (Esplanade);
 - Mannau swyddogaeth a chaffi top to yn cynnig golygfeydd dyrchafedig o'r môr
 - Theatr Stiwdio Newydd a chyfleusterau ategol;
 - Awditoriwm llawr cyntaf wedi'i wella;
 - Ardal aml-ddefnydd llawr gwaelod is wedi'i wella;
 - Cyfleusterau lles cynyddol a gwell gan gynnwys cyfleuster manau newid newydd;
 - Mannau deori busnes neu weithdy i lefel y stryd;
 - Cyfleusterau swyddfa newydd



Delweddau o gynigion ailddatblygu'r Pafiliwn Porthcawl: Purcell

Cammau Nesaf

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn a syniadau trigolion a busnesau sydd wedi'u lleoli ym Mhorthcawl ar sut y gall canol y dref ddatblygu, ffynnu a mwynhau dyfodol llewyrchus. Bydd y safbwyntiau a'r syniadau a gesglir yn cael eu dadansoddi'n ofalus a'u defnyddio i gefnogi datblygiad Strategaeth Creu Lleoedd Canol Tref Porthcawl.

I'r rhai na allant fynychu'r sesiwn galw heibio cyhoeddus, mae copïau electronig o'r byrddau arddangos ar gael ar wefan CBSP.

Mae'r cyngor wedi ymrwmo i wrando ac ymateb i farn trigolion ac mae am roi cyfleoedd i bobl leol gyfrannu at wneud penderfyniadau. Rhan allweddol o hyn yw derbyn adborth ar yr opsiynau posibl a nodwyd o'r ymgynghoriad creu lleoedd yng nghanol y dref. Er mwyn hwyluso ymgysylltu, mae bwrdd syniadau ar-lein wedi'i greu a gellir ei gyrchu isod. Mae hyn yn rhoi llwyfan i bobl rannu eu syniadau a chymeradwyo syniadau pobl eraill.

I ddweud eich dweud ar y cynigion, gellir cyflwyno sylwadau o 14 Mawrth 2024 i 4 Ebrill 2024 trwy'r opsiynau canlynol:

- Byrddiau Syniadau Ar-lein - Sganiwch y cod QR
- E-bost:
porthcawlplacemaking@bridgend.gov.uk
- Ar Bapur:

Adfywio CBSP
Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

